WG35-5-604

# GALAR GAN;

NEU,

## Goffadwriaeth

AM Y

# PARCH. T. GRIFFITHS,

GWEINIDOG YR EFENGYL

## YN HAWEN, GLYNARTHEN, A BRYNMAIR;

Yr hwn a fu farw Mehefin 24ain, 1838, yn
54ain mlwydd oed.

---

GAN THOMAS JONES.

---

*Testun ei Bregeth olaf, ychydig oriau cyn marw.*

1 Cor. 13. 12. "Canys gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych, mewn dammeg; ond yna, wyneb yn wyneb: yn awr yr adwaen o ran; ond yna yr adnabyddaf megis y'm hadwaenir."

---

Beth yw'r newydd sy'n ymdaenu,
  Lledu fel goleuni'r wawr?
Och! fe syrthiodd, mewn modd sydyn,
  Do, yn Israel, rywun mawr;
O gyfeillion hoff ac hawddgar
  Cyd-wrandewch ar alar gân,
Rhan o gamrau, 'r enwog Gymro,
  Wyf am geisio ddwyn yn mla'n.

2 Sabbath olaf yn Mehefin
  Fe wnaeth angau, brenin braw,
Yn ddigelu, ro'i yn gelain,
  Griffiths Hawen dan ei law;
Daccw'r perl tan ddwylaw'r parlys,
  O'r fath was sy'n cael y wŷs
Daccw'r gosgordd, hardd digysgu,
  Iddo'n gweini gyda brys.

3 Genedigol oedd o Dyfed,*
  Un o blant amddifaid o'dd
Collodd dad a mam anwylaf
  Ië, meddaf, dyna'r modd;

*Penfro.

Y2053099940

Ond gofalodd Duw yn dyner
Am y llester gwerthfawr hwn,
Ei chwaer Mary 'n fwyn a'i magodd
A'r ddau dalodd iddi, gwn. *

4 Boreu 'i oes a ro'es heb oedi
I broffesu Iesu gwiw,
Yn Brynberian unodd Griffiths
Gynta erioed âg eglwys Dduw;
Mr. Henry George, barchedig,
Fu'n garedig iawn i'w was,
Gwelodd gynnydd yn y genad,
Yn ei d'rawiad cynta ma's.

5 Gwel'd yn burion wnaeth Brynberian
Yn dra buan fod ei ddawn,
A'i wybodaeth ef mor helaeth;
Ca'dd anogaeth lawer iawn
I bregethu 'r Iesu'n gyhoedd,
Ufyddhaodd ynteu i'w cais,
Ca'dd ei anfon, ca'dd ei alw,
Mi wna'm llw mai dyna'u llais.

6 Ei ddull ydoedd fel Dilledydd
Gweithio'r dydd yn llangc ar hur,
Oriau'r nos yn prynu'r amser
Wrth olau gwer yn chwilio'r gwir;
I'w bar'toi i r weinidogaeth
Cadd ddysgeidiaeth da'r a nen,
Hael a thirion i'w nai Thomas
Bu'r hen Evans o'r Drewen.

7 'Roedd fel un o feibion Lefi,
Dawn pregethu yn y llwyth
Cof am Mr. Evans‡ ddawnus
'Nawr mae'n hysbys beth o'i ffrwyth,
Cof am Daniel Owen† ddoniol,
A fu'n wrol draethu'r gwir

---

* Ei thad nefol a'i brawd naturiol. ‡ B. Evans, Drewen. †D. Owen, Kendal.

A'r ddau Owen etto welir,*
  Enwog wylwyr ar y mur.

8 Ei neillduo ga'dd yn Horeb,
  Ni bu yno heb ei waith,
Rhan o'i lafur sydd i'w weled,
  Rhan yn nhrag'wyddoldeb maith;
Symud wnaeth i'r Glyn a Hawen,
  Yn ol trefen ddoeth y nen,
Yno bu'n llafurio'n helaeth
  Hyd nes aeth ei daith i ben.

9 Ei gynneddfau, O mor gryfed,
  Mor gadarned oedd ei go',
Do, diferodd fer difnyddiaeth
  I ni'n helaeth lawer tro:
Gwir diragrith a diweniaeth,
  Oedd ei bregeth yn ein gwydd,
Ei ymadrodd mwyn a medrus,
  Oedd yn weddus iawn i'w swydd.

10 Gwnaeth ei ran i godi'r ysgol,
  Sydd fendithiol yn ein gwlad,
Ac anogodd bawb oddeutu
  Ddyfod iddi heb nacâd;
Fe'n haddysgodd, fe'n cynghorodd
  Fe agorodd ini'r gair,
'Nawr i Hawen a'i phum canghen
  Mawr yw anghen cawr pe cair.

11 Ymegniodd dros baganiaid
  Gwnaeth ryw dynged § arno'i hun
Tra parhaiai dyddiau 'i einioes
  Fod a'u hachos mawr yn nglyn;
Faint o arian Cymru gasglodd,
  Faint gyfranodd ef o'i gell,

---

* J. Owen, Brynberian; a B. Owen, Merthyr. § Yr oedd yn tystio ei fod wedi gwneud tynged arno ei hun i wneud ei ran dros Baganiaid hyd farw, a sicr yw iddo gadw ei adduned.

Rho'dd ei oriau, rho'dd ei arian,
Er mwyn cadw'r pagan pell.

12 Yn y Cyrddau mawr Cenadol
O mor wrol yno bu,
O mor daer oedd am ein cyfran
Er goleuo'r pagan du;
Enwog oedd mewn cymmanfaoedd
Fel cyhoeddodd Grist i maes,
Gan ein galw at y golud,
Golud iechydwriaeth gras.

13 Cenad selog, mawr ei sylw,
D'wedai'n groyw ac yn gry',
D'wedai'n helaeth am farwolaeth
Iawn ac aberth Calfari
Sylwedd mawr yr hyn bregethodd
Trwy'r blyneddoedd maith i maes
Dyma'i destyn, gallaf dystio,
Crist a'i roeso, Crist a'i ras.

14 Cafodd fyw i aros yma
Weled y Gymmanfa, do;
A chyn myned trwy'r Iorddonen
Gwelodd Hawen dan y to; *
'Roedd fel Paul, roedd fel Apolos
Gyda'r achos yn ddiau,
Diwyd iawn yn y gym'dogaeth,
Planu wnaeth a dwfrhau.

15 Pwy all draethu faint o fendith
Fydd Bryngwenith a Brynmair
I'r oes hon a'r rhai dyfodol
Wrth ymwneud â'r Dwyfol air,
Pwy all amau na wel Griffiths
Gartref yn yr Eglwys bur,
Lawer enaid yno enir
Gan Dduw roddir yn y mur.

---

* Hawen sydd yn cael ei adeiladu o newydd.

16 'Roedd am fyn'd i drag'wyddoldeb
  Sul cymmundeb— cafodd hyn,
Cofio yn nhy newydd Hawen
  Am waith angau pen y bryn ;
Fe ga'dd hela'r Sabbath ola'
  Ar y llawr i wledda'n llon,
Yn yr hwyr trwy fwlch marwolaeth—
  Dyma bregeth in' o'r bron.

17 Bro Glanceri a Glandulais
  Glanymor, a'r glenydd oll
Collwyd cenad o ladmerydd,
  Aeth o'n gŵydd i'r bedd ar goll ;
Dweud mewn gallu, dweud heb gellwair,
  Oedd ei arfer bob yr awr,
Ymswyn wnai rhag colli amser,
  Fel mae llawer ar y llawr. *

18 Negeseiau, nychu Seion,
  Gormod o ofalon byd,
Fel mae degau, heb wel'd eu digon,
  Yn y ddaear hon a'i bryd;
Cadwodd ef rhag hyn yn gwbl,
  Dim ond chwilio meddwl Duw
A phregethu'r fwyn efengyl—
  Wrth y Bibl bu ef byw.

19 Ymwelai'n aml iawn a'r cleifion
  Yma'n dirion i bob man,
Mewn cyfyngder a thylodi
  'Roedd yn gweini ar y gwan ;
Dros bob cyflwr y gweddiodd
  Fe'u cynghorai oll yn ddwys,
A dangosai'r fan yn eglur
  I bechadur roddi bwys.

---

* Ystyriai pe buasai 60ain o ddynion yn aros munud wrtho, y buasai yn colledi awr ar yr ardal, &c. &c. Da pe gwnai pregethwyr y wlad ei efelychu.

20 Capel Drindod, Glyn a Hawen,
A Brynmair, y gangen gu,
I'r Bryngwenith na'r Bontgarreg,
Ni ddaw chwaneg attoch chwi;
Darfu'r tymor ddysgwyl Thomas
I Drefaes nac i Glandwr,
Na'r eglwysi trwy'r ardaloedd,
A fawr garodd wel'd y gwr.

21 Yn y flwyddyn fel y d'wedant,
Deunaw cant, tri deg ac wyth
Ro'wd mewn amdo, darfu ymdaith
Griffiths ffraeth gwr llawn o ffrwyth
Pedair blwydd-ar-ddeg a deugain
Oedd yn gorphen ar ei daith,
Para wnaeth ei ddefnyddioldeb
A'i ffyddlondeb yn y gwaith.

22 Treuliai'r dydd diwedda'n siriol
Fel arferol, weddol iach,
Yn yr hwyr yn mro marwolaeth
Angau ddaeth yn ddistaw bach;
Mewn i'r 'stafell at ein cyfaill,
Rho'dd i'w babell farwol nod,
Ca'dd mewn ystyr wel'd dau Sabbath,
Heb un tranoeth byth i fod.

23 O'r aelodau a dderbyniodd,
O'r angladdau gododd maes,
Yn mhob rhan o achos Seion,
Griffiths fu yn ffyddlon was;
'Nawr mae'r tafod wedi tewi,
Dan law'r Apoplexy mud,
Gwas yr Arglwydd ga'dd fath ergyd
Mawr, nes newid y ddau fud.

24 Praidd ei ofal, praidd ei afael,
Praidd fu'n Fugail arnoch cy'd,
Mae'n llefaru, er ei farw,
Wrthych heddyw yn y byd;

'Doedd ei swmp a'i holl esiamplau
I chwi'n ddiau un llesâd,
Heb ich' gadw ei orchymyn,
Heb ich' ddilyn ol ei draed.

25 Fe'ch rhybuddiodd, fe'ch cynghorodd,
Fe bregethodd i chwi'r gwir.
A gweddiai drosoch beunydd
Am ich' gael y grefydd bur;
P'odd mae etto'i ail gyfarfod,
Ryw ddiwrnod mawr a ddaw,
Glân oddiwrth eich gwaed bob graddau,
Yn ddilai, mae ei ddwylaw.

26 Fe bregethodd yn ei angla'
I'r gyn'lleidfa, lu tan loes,
Mr. Davies, Aberteifi, 2 Cron. 35. 24.
Mr. Evans, Penygroes; 1 Thes. 4. 14.
Rhan o hono 'nawr sy'n huno
O dan glo wrth dŷ y Glyn,
Hyd nes delo'r Iesu ar.wyl,
Ar y cwmwl goleu gwyn.

27 Ergyd trwm ga'dd Mrs. Griffiths,
Ei ymgeledd gymhwys gu,
Sy'n ddibobol, ond ychydig,
Gweddw unig iawn yw hi;
Bawb dangoswch bob tynerwch,
A dyngarwch atti mwy,
Rhwyg priodas—rhwyg cymdeithas,
A wnaeth angau glâs â'i glwy.

28 O daith Dyfed* dacw'n dyfod
At ei briod 'nol i'r Glyn,
O daith Merthyr a'i hamgylchoedd,
Teithiodd 'n ol o'r teithiau hyn;
Nid yn Llundain 'nawr mae'n cynnyg
Yn gymraeg y Meddyg gwell,
Nid i'r Gogledd tro'dd ei wyneb,
Ond i'r trag'wyddoldeb pell.

* Penfro.

29 Gwyddost heddyw fwy am natur
Pethau welir dan y llo'r,
Haul a lleuad a phlanedau,
Ser, a'u graddau, tir a môr;
Gwyddost heddyw p'un ai haulwen
Sydd yn troi, neu'r ddae'ren ddu,
P'un sy'n symud, p'un sy'n sefyll,
'R hyn sy'n dywyll 'nawr i ni.

30 Gwyddost 'nawr pwy sect yn sicr
Fwyaf cywir yma cair,
Pwy'n mhlith dynion a'u henwadau,
Nesaf i reolau'r gair;
Gwyddost heddyw beth yw marw,
Pwy mor chwerw yw i'r plant,
Faint o gymhorth yw'r angylion,
Yn yr afon fawr i'r saint.

31 Gwyddost heddyw'n gwbl berffaith,
Pryd mae dechreu'r Sabbath llon,
Faint sy' i orphwys, bryd mae i orphen,
Ar y ddae'ren dywell hon;
Ond anfeidrol drefn y cymmod
Yw'th ryfeddod mwyaf llawn,
Uwch Cerubiaid, uwch Seraphiaid,
Uwch pob enaid uwcha'i ddawn.

32 Pob rhyw aelod, pob rhyw swyddog,
Tlawd, cyfoethog, o bob gradd,
Ymogelwch a gweddiwch,
Gwilio byddwch rhag y badd;
Yn ddigynnen ceisiwch gennad
O ganfoniad nefoedd wen,
Gyda'ch llwydd am rodd mor werthfawr,
Mi ro'f 'nawr y gair Amen.

DIWEDD.

Isaac Thomas, Argraffydd, Aberteifi.